Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# IS- BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## 4 Mehefin 2026

**TEITL:** Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26

**AWDUR:** Dewi A. Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol CJC)
Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer 2025/26.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Derbyn yr adroddiad ar gyfer 2025/26.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn ddyddiol ac fe dirprwyir i Bennaeth a staff yr Adran Cyllid yng Nghyngor Gwynedd ac mae'n ofynnol iddynt weithredu yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys sydd wedi ei gymeradwyo.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae rheolaeth trysorlys yn ymwneud â chadw digonedd ond nid gormodedd o arian parod i ddiwallu anghenion gwariant y CBC, gan reoli'r risgiau cysylltiedig.

4.2 Cymeradwywyd y strategaeth ar gyfer 2025/25 gan y CBC ar 13 Mehefin 2025. Mae'r adroddiad hwn yn cymharu'r gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth.

## 5. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

5.1. Mae'r Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys 2025/26 wedi ei seilio ar Côd CIPFA a'r Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol gan Llywodraeth Cymru ac felly yn cyflawni cyfrifoldeb cyfreithiol y CBC o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

ATODIADAU:

**Atodiad 1** Gweithgaredd Rheolaeth Trysorlys 2025/26

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yn ymwneud â gweithgareddau rheolaeth trysorlys a wnaed o dan Strategaeth Rheolaeth Trysorlys cymeradwy y CBC a chanllawiau statudol/CIPFA. Ar y sail bod yr adroddiad ar gyfer nodi yn hytrach na chymeradwyo strategaeth newydd, nid oes gennyf unrhyw sylwadau cyfreithiol pellach, yn amodol ar swyddogion Cyllid fod yn fodlon bod gweithgareddau yn ystod 2025/26 yn cydymffurfio â'r strategaeth gymeradwy a'r canllawiau cymwys.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad.